CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Tachwedd 17, 2015 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

1.Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 20, 2015

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 20, 2015

6. Gohebiaeth

a. Copi o 'Newyddlen - Dalgylch y Gader' oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd.

Rhoddwyd copi o'r newyddlen i'r aelodau.

b. Llythyr (22/10/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau:

i. Datganoli Gwasanaethau (Saesneg) yn Llyfrgell Rudd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Tachwedd 10 am 6:30yh. Y gost fydd £35 y person.

ii. Cyllid Llywodraeth Leol (Saesneg) yn Theatr y Ddraig, Abermaw ar ddydd Mercher, Tachwedd 18 am 6:30yh. Y gost fydd £35 y person.

c. Llythyr ateb (27 Hydref 2015) oddi wrth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru yn rhoi ateb i lythyr yn Gofnodion Medi 15, 2015:

i. Eitem 10.c.ii. Nid oes cynllun i roi arwyddion ger Hen Laethdy Hufenfa Rhydymain i wella diogelwch ffordd A494. Bydd sylw yn cael ei roi i'r mater wrth baratoi cynlluniau ar gyfer blwyddyn ariannol nesaf.

ii. Eitem 10.c.iiii. Maent wedi cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i ofyn iddynt gymryd camau priodol gyda cheir sy'n parcio ar ochr ffordd A494 wrth gwt BT ger Troedyrhiw, Rhydymain.

ch. Llythyr (28.10.2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Criced, Dolgellau ar Tachwedd 25 2015 am 7.00yh. Bydd Swyddog o gwmni Cartefi Cymunedol Gwynedd yn bresennol yn rhoi cyflwyniad ar waith y cwmni.

Amgáu mae cofnodion cyfarfod y pwyllgor oedd ar 23/09/2015.

d. Llythyr (Hydref 2015) oddi wrth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. Maent eisiau gwybodaeth am lefydd mae pobl yn eu defnyddio i gysgu ar y strydoedd.

dd. Llythyr (3/11/2015) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/356B. Gosod twrbin gwynt ar twr 12m o uchder, cyfanswm o 14.75m ar frig y llafn. Tir yn Cae Glas, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (5/11/2015)

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/54/243E. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Uwchraddio gorsaf telathrebu presennol. Safle CTIL 121285, Fronalchen, Dolgellau.

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Hydref 2015: £1,135.32.

b. Balans yn y banc ar 29 Hydref 2015: £7,734.71.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

10. Unrhyw fater arall

a. Cofiwch am y cyfarfod i drafod cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio fel sy'n cael ei wneud yn ardal Penllyn. Bydd cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Lun, Ionawr11, 2016 am 7.00yh. i drafod y mater.

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc